House of Blues

Wel am ddydd Sul gwahanol! Sul 12 Medi oedd hwn pan oeddem ar ein gwyliau gyda Matthew yn Los Angeles. Roedd Rachel a Matthew wedi llwyddo i gael tocynnau i ni fynd i'r House of Blues. 'Roeddwn wedi meddwl – yn anghywir – mai i gapel roeddem yn mynd i wrando ar Blues a Gospel ond roedd yn edrych fel 'shack'. Roedd wedi'i orchuddio â *'corrugated iron*' ac yn edrych yn hen ac yn bendant ddim yn rhy saff. Beth tase daeargryn? Pa obaith?! Ond gwnaeth Matthew fy sicrhau mai '*facade*' llwyr oedd y tu allan ac yn hollol saff!

I mewn â ni am 10 o'r gloch y bore i le oedd, yn wir, yn cael ei ddefnyddio fel clwb nos. Cawsom ein croesawu'n wresog a'n dangos i'n bwrdd. Cyn y sioe/cyngerdd, roedd bwyd. 'Roeddwn wedi penderfynu peidio â chael brecwast traddodiadol ond mynd am rywbeth na fyddem yn debygol o'i gael fel arfer. 'Roedd bacwn/ wy/ selsig ond roedd y dewisiadau eraill yn llawer mwy diddorol. Beth am jambalaya, cyw iâr mewn mêl, macaroni cheese, bisgedi (sgons i ni) a '*country gravy*'? 'Roedd digonedd o saladau o bob math, bwyd môr – gorgimwch anferth ac yna ffrwythau a dewis anhygoel o bwdinau! Jambalaya aeth â hi i fi – a chafodd y tri ohonom 'seconds'.

Am 11 gyda ffanfer, agorodd y llenni ac yn sefyll ar flaen y llwyfan, roedd menyw croenddu wedi'i gwisgo mewn ffrog wen hir a het gyda lot o blu ar ei phen. Y tu ôl iddi, roedd pedair arall wedi gwisgo'n smart iawn mewn siwtiau oren/ coch a hefyd band. Yr emyn cyntaf oedd *Holy, Holy, Holy* ac 'roedd y dehongliad yn wefreiddiol. Ar ôl sawl emyn adnabyddus – *Old Rugged Cross, Give Me Joy In My Heart*, daeth rhai o'r gynulleidfa i'r llwyfan i roi eu profiadau a'u tystiolaeth bersonol o flaen y gynulleidfa. 'Roedd yn brofiad emosiynol iawn i'r rhain tra roedd y pedwarawd yn canu clod a diolch i'r Iesu.

Roedd pawb yn y gynulleidfa ar eu traed yn canu ac yn clapio. Roedd lleisiau'r pedair yn anhygoel gyda'r fath amrywiaeth a'r awyrgylch roedden nhw'n ei greu. Profiad bythgofiadwy i'r tri ohonom.

Helen a Glyn Evans